



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	22 Medi 2017
TEITL	Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2017/18.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif gorwariant net o £10,660 yn erbyn y gyllideb, gyda'r prif reswm yn ymwneud gyda'r adleoli swyddfa ardal Fflint/Wreccsam.
- 1.2 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth: Chwarter 1: tanwariant (£14,026).

Mae trosiant staff a'r cyfnod pryd roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd dros dro a rhan amser (Ebrill a Mai 2017) wedi arwain at danwariant un-tro cymharol fechan.

2.2 **Adeilad - Rhent:**

Chwarter 1: gorwariant £29,750.

Mae'r GwE yn adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wreccsam o'r 1af o Fedi, gyda'r gost flynyddol yn uwch na cost y swyddfa flaenorol (effaith 7 mis am eleni sydd wedi ei gynnwys uchod). Mae angen adnabod dull ariannu parhaol ar gyfer y cynnydd cost blwyddyn gyfan.

2.3 **Cludiant – Costau Teithio:**

Chwarter 1: tanwariant (£5,064).

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2017/18.

2.4 **Arbedion 2016/17 i'w darganfod**

Chwarter 1 : niwtral

Mae'r mater yma yn destun adroddiad ar wahân i'r cyfarfod yma o'r Cyd Bwyllgor, sy'n amlygu a chadarnhau dull ariannu parhaol ar gyfer diwallu'r targed arbedion effeithlonrwydd gosodwyd yng nghyllideb 2016/17.

2.5 **Cyfraniadau Awdurdodau**

Mae'r addasiadau cymharol fychan i gyfraniadau Awdurdodau unigol yn adlewyrchu defnydd gwybodaeth 'Llyfr Gwyrdd' (dadansoddiad o asesiadau gwariant safonol ar wasanaethau unigol yr awdurdodau lleol) 2017/18 Llywodraeth Cymru.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 oedd (£738,572).

3.2 Mae cynllun busnes y GwE yn cynnwys manylion defnydd o'r gronfa.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad Chwarter 1af 2017/18.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.